

Gwybodaeth i Gleifion

Ymyrraeth Goronaidd Drwy'r Croen (PIC) (Percutaneous Coronary Intervention)

(dull o drin yr arterïau sy'n cyflenwi gwaed i'r galon sydd wedi culhau)



Ymddiriedolaeth Sefydledig GIG Ysbyty'r Galon a'r Frest Lerpwl
Thomas Drive
Lerpwl
Glannau Mersi
L14 3PE
Ffôn: 0151-228 1616

www.lhch.nhs.uk

Ysgrifennwyd y daflen hon i roi gwybodaeth i gleifion am y dull o drin yr arterïau sy'n cyflenwi gwaed i'r galon sydd wedi culhau (Ymyrraeth Goronaidd Drwy'r Croen - *Percutaneous Coronary Interventions* - neu PCI yn fyr). Rydym yn gobeithio y bydd yr wybodaeth hon yn ateb rhai o'r cwestiynau neu'r pryderon sydd gennych ynglŷn â'r driniaeth. Cofiwch y dylech siarad gyda staff meddygol neu nysio yn ogystal â darllen y daflen hon.

Beth ydy Ymyrraeth Goronaidd Drwy'r Croen?

Triniaeth yw Ymyrraeth Goronaidd Drwy'r Croen (a elwir hefyd yn PCI, angioplasti neu stentio coronaidd) i ledu neu glirio rhwystrau yn yr arterïau sy'n cyflenwi gwaed i'r galon).

Cyhyr yw'r galon sy'n pwmpio gwaed llawn ocsigen o amgylch y corff er mwyn gwneud i organau a chyhyrau'r corff weithio'n effeithiol. Mae'r galon hefyd angen cyflenwad cyson o ocsigen i weithio'n effeithiol. Mae'r ocsigen hwn yn cael ei gludo i'r galon, yn y gwaed, drwy'r arterïau coronaidd.

Gall culni neu rwystrau ddigwydd yn yr arterïau hyn oherwydd bod deunydd brasterog yn cronni'n haenau y tu mewn i'r arterïau (yr enw a roddir ar hyn yw atherosclerosis) ac yn gwneud iddynt gulhau, neu mewn rhai achosion gau yn llwyr. Mae hyn wedyn yn rhwystro llif y gwaed i'r galon ac yn achosi angina a thrawiadau ar y galon. Yr enw a roddir ar hyn yw clefyd yr arterïau coronaidd.



Beth sy'n digwydd yn ystod y driniaeth?

Mae'r driniaeth fel arfer yn digwydd drwy'r arterïau yn yr arddwrn neu dop y goes. Byddwch yn effro yn ystod y driniaeth ond byddwch yn cael anaesthetig lleol i fferru'r croen.

Bydd toriad bach yn cael ei wneud naill ai yn yr arddwrn neu dop y goes. Bydd tiwb tenau iawn (sy'n cael ei alw'n cathetr) yn cael ei roi yn yr arteri ac yn cael ei arwain yn ofalus tua'r galon. Mae hylif lliw arbennig yn mae'n bosib ei weld ar lun pelydr x yn cael ei chwistrellu drwy'r tiwb er mwyn i'r meddyg gael archwilio'r arterïau coronaidd a'r galon. Efallai y bydd hyn yn creu teimlad o gynhesrwydd ond nid yw'n unrhyw beth i boeni yn ei gylch.

Bydd weiren denau iawn wedyn yn cael ei phasio drwy'r darn o'r arteri sydd wedi culhau a bydd balw'n yn cael ei phasio dros y weiren a'i chwyddo. Bydd hyn yn cywasgu'r deunydd brasterog (a elwir hefyd yn atherosclerosis neu blac) sydd wedi achosi i'r arteri gulhau.

Wrth i'r balw'n chwyddo bydd tiwb byr o rwyll dur gloyw (stent)sydd wedi'i lapio o amgylch y balw'n yn chwyddo. Bydd hwn yn helpu i gadw'r arteri ar agor ac mae'n rhaid defnyddio un yn y rhan fwyaf o achosion. Bydd y balw'n wedyn yn cael ei ddadchwyddo a'i dynnu gan adael y stent yn ei le.

Translations for diagrams

Coronary artery – arteri coronaidd
Plaque – Plac
Catheters – Cathetrau
Closed Stent – Stent ar gau
Expanded Stent – Stent wedi chwyddo
Stent widened artery - Arteri wedi'i hagor â stent
Compressed Plaque – Plac wedi'i gywasgu
Increased blood flow – mwy o waed yn llifo i'r galon

Fyddda i'n teimlo poen yn ystod y driniaeth?

Efallai y gwnewch chi deimlo ychydig bach o boen yn eich brest pan fydd yn balw'n yn cael ei chwyddo, tebyg i boen angina y byddwch efallai wedi ei deimlo o'r blaen. Dylai'r boen fynd unwaith y mae'r balw'n yn cael ei dadchwyddo. Os ydych yn teimlo unrhyw boen yn ystod neu ar ôl y driniaeth mae'n rhaid i chi ddweud wrth y staff.

Efallai y byddwch yn teimlo bod eich calon yn methu curiad neu'n rhoi curiad ychwanegol tra mae'r chathetr yn yr arteri yn eich calon. Mae hyn yn gwbl arferol.

Faint fydd o amser fydd y driniaeth yn ei gymryd?

Mae'r driniaeth yn cymryd tua awr fel arfer er bod hyn y amrywio yn dibynnu faint o ddarnau wedi culhau y mae angen eu trin.

Sut ddylwn i baratoi ar gyfer y driniaeth?

Efallai y byddwch yn cael gwahoddiad i fynd i glinig cyn-triniaeth lle byddwch yn cael gwybodaeth bwysig am y driniaeth a'ch gwellhad. Bydd y Nyrs Ymarferwr yn y clinig yn siarad efo chi ynglŷn â sut i gadw eich calon yn iach ac am adferiad ar ôl triniaeth gardiaidd.

Bydd y rhan fwyaf o bobl yn cael cyffuriau gwrth-blaten ychwanegol (cyffuriau i deneuo'r gwaed) cyn y driniaeth. Byddwch yn cael y rhain naill ai yn y clinig cyn-triniaeth neu pan ddewch i'r ysbyty i gael y driniaeth. Bydd y cyffuriau yn helpu i leihau'r risg y bydd gwaed yn ceulo o amgylch y stent newydd.

Cyn i chi ddod i'r ysbyty byddai o gymorth petaech yn siafio'r crych ar dop eich coesau a siafio eich arddyrnau os oes angen. Bydd angen i chi gael bath neu gawod.

Byddwch yn cael gwybod pa bryd y dylech stopio bwyta cyn cael y driniaeth.

Beth yw manteision cael y driniaeth?

Efallai y bydd y driniaeth wedi cael ei hargymell i wella llif y gwaed i'r galon ar ôl trawiad ar y galon neu i leihau neu gael gwared ar symptomau angina.

Mae llawer o bobl yn darganfod eu bod nhw'n teimlo llai o boen yn eu brest ar ôl y driniaeth a gall eu stopio rhag teimlo allan o wynt. Mewn rhai achosion gall olygu y gallwch gymryd llai o gyffuriau i drin eich angina.

Fydd y driniaeth yn gweithio?

Mae'r driniaeth yn cael ei rhoi i nifer fawr o bobl ar draws y byd ac mae fel arfer yn llwyddiannus dros ben. Fodd bynnag, os bydd arteri wedi cau yn llwyr mae llai o siawns y bydd y driniaeth yn llwyddiannus. Er mwyn lleihau'r risg o ddatblygu culni mewn rhannau eraill o'r arterïau coronaidd yn y dyfodol, byddwch yn cael eich hatgyfeirio i ganolfan adferiad cardiaidd.

Beth yw'r risgiau cysylltiedig â'r driniaeth?

Mae'r driniaeth yn cael ei rhoi yn yr ysbyty hon i nifer fawr o bobl ac mae fel arfer yn ddiogel dros ben.

Mae rhai o'r risgiau cyffredinol cysylltiedig â'r driniaeth wedi 'u nodi isod; fodd bynnag gall fod mwy o risg i rai cleifion unigol o ddatblygu un neu bob un o'r cymhlethdodau cysylltiedig â'r driniaeth.

Bydd eich risgiau unigol yn cael eu trafod gyda chi mewn mwy o fanylder cyn i chi arwyddo'r ffurflen ganiatâd.

- Gall gwaedu neu gleisio ddigwydd yn y manau lle bydd y tiwb yn cael ei roi i mewn i'ch coes neu'ch arddwrn
- Gall adwaith alergol i'r tiwb plastig ddigwydd mewn 2-4% o achosion. Gall yr adwaith hwn achosi cochni ar y croen a chwydd a phoen lle'r aeth y tiwb i mewn. Mae'r adwaith hwn yn edrych fel haint ar y croen.
- Mae risg bychan y bydd y gwaed yn ceulo yn yr arteri ac yn glynu wrth y stent newydd. Gallai hyn achosi i'r arteri gau a gall arwain at drawiad ar y galon. Gall cymryd cyffuriau gwrth-blaten (i deneuo'r gwaed) am ychydig ar ôl y driniaeth helpu i atal hyn. Bydd eich meddyg yn rhoi gwybodaeth bwysig ynglŷn â hyn i chi.

Mae cymhlethdodau mwy difrifol ond anarferol yn cynnwys:

- Difrod i'r arterïau fydd yn achosi iddynt gulhau neu gau yn sydyn. Gallai hyn achosi trawiad ar y galon fydd yn gofyn am lawdriniaeth ddargyfeiriol frys.
- Strôc naill ai yn ystod y driniaeth neu o ganlyniad i'r cyffuriau sy'n cael eu defnyddio yn ystod y driniaeth i deneuo'r gwaed.

Pa ddewisiadau eraill sydd gen i?

Mae hyn yn dibynnu ar ba cyflwr calon sydd gennych, beth mae eich angiogram (prawf i archwilio'r arterïau sy'n cyflenwi gwaed i'r galon) yn ei ddangos a pha mor ddrwg yw eich symptomau.

Nid yw pob claf sy'n dioddef o glefyd yr arterïau coronaidd yn addas ar gyfer Ymyrraeth Goronaidd Drwy'r Croen. Efallai y bydd y cleifion hyn yn cael cynnig llawdriniaeth i ddargyfeirio'r arterïau coronaidd yn lle Ymyrraeth Goronaidd Drwy'r Croen. Mae llawdriniaeth ddargyfeirio hefyd yn ddull llwyddiannus iawn o leddfau angina. Efallai y gellir trin pobl gydag angina â chyffuriau'n unig os yw eu symptomau'n sefydlog. Bydd eich meddyg yn hapus i drafod unrhyw driniaethau amgen os ydynt yn addas ar eich cyfer chi.

Beth alla'i ei ddisgwyl ar ôl y driniaeth?

Pan fydd y driniaeth ar ben byddwch yn cael ei symud yn ôl i'r ward. Bydd y nyrs sy'n gofalu amdanoch yn gwirio rhythm eich calon a'ch pwysau gwaed ac yn edrych ar y croen lle'r aeth y tiwb i mewn i'ch corff yn rheolaidd. Byddwch yn cael bwyta ac yfed oni bai bod arnoch angen rhagor o brofion.

Pryd fydda' i'n cael dechrau gwneud pethau arferol eto?

Efallai y byddwch chi'n cael mynd adref ar yr un diwrnod neu weithiau'r diwrnod ar ôl y driniaeth. Fyddwch chi ddim yn cael gyrru am wythnos. Os ydych chi'n gyrru cerbyd sydd angen trwydded arbennig bydd rhaid i chi aros am chwe wythnos i gael profion i wirio'ch ffitrwydd.

Dylech chi gymryd o leiaf wythnos i ffwrdd o'r gwaith er bod hyn yn amrywio yn dibynnu ar y math o waith yr ydych yn ei wneud. Ceisiwch osgoi codi pethau trwm am tua 1 – 2 wythnos.

Bydd y cyngor hwn yn cael ei drafod gyda chi mewn mwy o fanylder cyn i chi fynd adref a byddwch yn cael taflen gyngor i gleifion sy'n gadael yr ysbyty.

Byddwch fel arfer yn cael eich gweld yn y clinig cleifion allanol tua 4 – 6 mis ar ôl y driniaeth. Mae'r holl gleifion sydd wedi cael y driniaeth yn cael eu hatgyfeirio i'w canolfan adferiad coronaidd agosaf lle maent yn cael gwybodaeth a chynghor bwysig i leihau'r risg o ddatblygu clefyd arterïau coronaidd eto yn y dyfodol.

Bydd staff y ganolfan yn cysylltu â chi'n uniongyrchol, fel arfer tua phythefnos ar ôl y driniaeth.

Am ragor o wybodaeth ewch i:

www.nhsdirect.nhs.uk

www.bhf.org.uk

www.dipex.org

Neu cysylltwch â:

Llinell wybodaeth Sefydliad Prydeinig y Galon ar 0845 0708070.

Os ydych angen copi o'r ffurflen hon ar fformat neu mewn iaith arall, cysylltwch â ni gan ddyfynnu côd y daflen a'r iaith neu'r fformat yr ydych ei angen.